
# Cyhoeddiadau CBAC 2019–20

Crynodebau o bob un o'r llyfrau a gyhoeddwyd yn ystod blwyddyn ysgol 2019–20:

## ADEILADU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

***CBAC Dyfarniad Galwedigaethol: Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig Lefel 1/2***




Wedi'i ysgrifennu gan athro â phrofiad helaeth yn y maes, mae'r llyfr hygyrch ac ymarferol hwn yn adnodd perffaith i'ch cefnogi drwy gwrs CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig.

Mae pob uned wedi'i rhannu yn glir yn feini prawf asesu unigol, sy'n rhoi cyfarwyddyd i chi ynglŷn â'r hyn sy'n ddisgwyliedig a pha ddealltwriaeth y dylech chi ei chael mewn perthynas â'r fanyleb.

Mae'r cynnwys wedi'i rannu yn gategorïau Gwybodaeth, Dealltwriaeth, Sgiliau a Chymhwyso, gan roi cyfle i chi weithio'n rhesymegol drwy'r cwrs a sicrhau eich bod yn dysgu mewn ffordd berthnasol a phwrpasol.


Bydd yr adran asesu berthnasol yn eich helpu i baratoi'n drylwyr ar gyfer eich Asesiad Diarholiad a'ch arholiadau.

Mae'r llyfr yn cynnwys codau QR i'ch tywys at fideos sy'n cyd-fynd â'r cymhwyster ac yn dod â'r cwrs yn fyw.

ISBN: 978-1-912820-59-7
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

## ALMAENEG

***CBAC TGAU Almaeneg: Canllaw Adolygu***




Mae’r canllaw adolygu hwn wedi cael ei ysgrifennu gan arholwyr ac athrawon profiadol i helpu dysgwyr sy’n astudio CBAC TGAU Almaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae’n addas ar gyfer ymgeiswyr Haen Sylfaenol a Haen Uwch.

Mae cwestiynau enghreifftiol a chynnwys diddorol sy’n berthnasol i themâu ac is-themâu CBAC. Mae’r rhain wedi eu cynllunio i baratoi myfyrwyr ar gyfer yr arholiad.


Mae’r llyfr yn cynnwys:

- Gwybodaeth fanwl, cam wrth gam, ar fformat pob arholiad, gyda chyngor, awgrymiadau a thechnegau defnyddiol i helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer pob agwedd
- Arweiniad ar sut i wneud tasgau chwarae rôl, cardiau llun a sgwrsio yn yr arholiad siarad
- Enghreifftiau o’r mathau o gyfarwyddiadau, sbardunau a chwestiynau i’w disgwyl yn yr arholiad, yn y Gymraeg a’r Almaeneg (yn debyg i sut byddan nhw yn yr arholiad)
- Cyfieithiadau o eiriau allweddol ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer pob testun
- Amrywiaeth o dasgau darllen ac ysgrifennu, gydag adran atebion ar ddiwedd y llyfr
- Adrannau drwy’r gyfrol sy’n adolygu’r prif bwyntiau gramadegol, gan gynnwys ymarferion, yn ogystal â thermau gramadeg a chrynodeb gramadeg sy’n cynnwys tablau berfau.

ISBN: 978-1-785834-82-0
Cyhoeddwr: Crown House Publishing

**ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**

***CBAC Astudiaethau Crefyddol U2: Bwdhaeth***




Yn debyg i'r gyfrol ar Iddewiaeth, sy'n rhan o'r un gyfres, bydd dyluniad y gwerslyfr newydd hwn yn dal sylw dysgwyr, yn eu cefnogi drwy'r cwrs ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Mae'r llyfr yn cynnig:

- Cynnwys manwl sydd wedi'i gyflwyno mewn ffordd glir a deniadol i helpu'r dysgwyr i ddeall y wybodaeth
- Llwybr dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau i helpu'r dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng cynnwys y fanyleb a'r arholiad terfynol
- Termau allweddol sy'n cael eu nodi'n glir a'u diffinio drwy'r llyfr
- Cwestiynau cyflym (ac atebion) sy'n rhoi cyfle rheolaidd i atgyfnerthu'r ffeithiau allweddol ym mhob testun
- Gweithgareddau sy'n targedu pob Amcan Asesu yn glir
- Adran Datblygu Sgiliau sy'n helpu dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am gynnwys y fanyleb a'r materion sy'n cael eu codi
- Adran Cwestiynau ac Atebion sy'n rhoi enghreifftiau o gwestiynau arholiad gydag atebion gan fyfyrwyr a sylwadau gan arholwyr.


Cynnwys (yn dilyn themâu'r fanyleb U2):

Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig
Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol
Thema 3 : Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol
Thema 4 : Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol
Rhestr eirfa lawn sy'n crynhoi'r holl dermau allweddol

Dyma adnodd gwerthfawr gan awduron profiadol yn y maes i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer yr arholiad Safon Uwch.

ISBN: 978-1-911208-93-8
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing


***CBAC Astudiaethau Crefyddol UG: Crefydd a Moeseg – Canllaw Astudio ac Adolygu***




Canllaw yw hwn i'ch helpu ymhellach wrth adolygu a pharatoi at arholiad Crefydd a Moeseg UG CBAC. Cafodd ei strwythuro'n ofalus gan awduron profiadol i gyd-fynd â'r gwerslyfr yn yr un gyfres gan Illuminate Publishing. Mae'n eich arwain drwy'r fanyleb fesul thema ac is-thema: Meddylfryd Moesegol, Deddf Naturiol Aquinas, Moeseg Sefyllfa, ac Iwtilitariaeth. Cyflwynir y dadleuon a'r gwahanol safbwyntiau yn gryno, gan hoelio sylw ar y prif bwyntiau heb eich llethu â gormod o fanylion. Drwy'r geiriau 'Sbardun' a'r 'Dyfyniadau Sbardun' fe gewch gymorth i gofio'r ffeithiau allweddol a fydd yn eich sbarduno i ddwyn i gof y wybodaeth fydd ei hangen arnoch chi yn yr arholiad. Mae yma adrannau hefyd sy'n eich atgoffa o'r sgiliau y bydd yr arholwr yn chwilio amdanyn nhw yn y cwestiynau AA1 ac AA2. I gloi pob is-thema, mae 'Gweithgaredd Adolygu Sbardun' sy'n crynhoi'r eirfa Sbardun yn un rhestr dwt. Mae'r llyfr yn frith o awgrymiadau ar sut i wella'ch atebion − dyma'r allwedd i dorri drwy lo mân y pwnc i'ch helpu i lwyddo!

ISBN: 978-1-912820-28-3
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

*CBAC Astudiaethau Crefyddol U2: Crefydd a Moeseg*




Yn debyg i'r gyfrol ar Athroniaeth Crefydd, sy'n rhan o'r un gyfres, bydd dyluniad y gwerslyfr newydd hwn yn dal sylw dysgwyr, yn eu cefnogi drwy'r cwrs ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Mae'r llyfr yn cynnig:

- Cynnwys manwl sydd wedi'i gyflwyno mewn ffordd glir a deniadol i helpu'r dysgwyr i ddeall y wybodaeth
- Llwybr dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau i helpu'r dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng cynnwys y fanyleb a'r arholiad terfynol
- Termau allweddol sy'n cael eu nodi'n glir a'u diffinio drwy'r llyfr
- Cwestiynau cyflym (ac atebion) sy'n rhoi cyfle rheolaidd i atgyfnerthu'r ffeithiau allweddol ym mhob testun
- Gweithgareddau sy'n targedu pob Amcan Asesu yn glir
- Adran Datblygu Sgiliau sy'n helpu dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am gynnwys y fanyleb a'r materion sy'n cael eu codi
- Adran Cwestiynau ac Atebion sy'n rhoi enghreifftiau o gwestiynau arholiad gydag atebion gan fyfyrwyr a sylwadau gan arholwyr.


Cynnwys (yn dilyn themâu'r fanyleb U2):

Thema 1: Meddylfryd Moesegol
Thema 2: Moeseg Ddeontolegol
Thema 3 : Penderfyniaeth
Thema 4 : Ewyllys Rydd
Rhestr eirfa lawn sy'n crynhoi'r holl dermau allweddol

Dyma adnodd gwerthfawr gan awduron profiadol yn y maes i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer yr arholiad Safon Uwch.

ISBN: 978-1-911208-77-8
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

***CBAC Astudiaethau Crefyddol U2: Athroniaeth Crefydd – Canllaw Astudio ac Adolygu***




Yn dilyn y Canllaw Adolygu Athroniaeth Crefydd UG, bydd dyluniad y Canllaw Adolygu U2 newydd hwn sy'n rhan o'r un gyfres yn dal sylw dysgwyr, yn eu cefnogi drwy'r cwrs ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Mae'r llyfr yn cynnig:

- Gwybodaeth a gwerthuso hanfodol – mewn fformat hawdd ei ddarllen
- Gweithgareddau adolygu i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer yr arholiadau
- Awgrymiadau ymarferol ar gyfer ateb cwestiynau AA1 ac AA2
- Materion dadleuol allweddol ar gyfer yr holl ddeunydd AA2, y gallwch chi ehangu arnyn nhw i greu atebion arholiad
- Atebion enghreifftiol ar gyfer cwestiynau AA1 ac AA2, gyda chyngor ac awgrymiadau arbenigol ar greu ateb effeithiol
- Cysylltiadau synoptig ar gyfer holl isthemâu'r fanyleb.

Cynnwys (yn dilyn themâu'r fanyleb U2):


Thema 1: Heriau i gred grefyddol
Thema 2: Profiad crefyddol
Thema 3: Iaith grefyddol (rhan 1)
Thema 4: Iaith grefyddol (rhan 2)

Dyma adnodd gwerthfawr gan awduron profiadol yn y maes i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer yr arholiad Safon Uwch.

ISBN: 978-1-912820-29-0
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

## BIOLEG

***CBAC TGAU Bioleg: Llyfr Gwaith***




Bydd y llyfr gwaith hwn yn helpu i ddatblygu disgyblion hyderus a llythrennog sydd wedi’u paratoi’n dda ar gyfer arholiad TGAU Bioleg CBAC. Mae’n adnodd gwych er mwyn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o destunau Bioleg penodol, gan ddatblygu eu hyder a’r sgiliau arholiad fydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer TGAU Bioleg.

Mae’r llyfr hwn yn cynnwys:

- Deunydd ysgogi, gan gynnwys termau a chysyniadau allweddol
- Cwestiynau byr a chwestiynau enghreifftiol hirach
- Lle gwag i’r disgyblion ysgrifennu eu hatebion.

Mae modd defnyddio’r llyfr gwaith hwn yn ychwanegol i’r adnoddau allweddol, fel y gwerslyfr a’r canllaw adolygu ac mae’n hawdd i’w addasu ar gyfer unrhyw gynllun gwaith presennol.

Mae’n darparu deunydd adnoddau hyblyg i atgyfnerthu a chymhwyso dealltwriaeth disgyblion o’r testun, fel rhan o’r gwaith dosbarth neu fel tasgau estynedig, neu ar gyfer gwaith adolygu.

Mae’n paratoi disgyblion i ymdopi â gofynion y fanyleb gan sicrhau eu bod yn ymarfer eu techneg arholiad ac mae’r cwestiynau enghreifftiol yn ffordd o ddatblygu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig.


Mae’r adnodd hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer addysgu ac asesu annibynnol, gan fod yr atebion i’r holl dasgau, gweithgareddau a’r cwestiynau enghreifftiol ar gael ar wefan Hodder Education.


ISBN: 978-1-5104-7866-4
Cyhoeddwr: Hodder Education


**BUSNES**


Pedwar canllaw Busnes Safon Uwch:

**1 – *UG Cyfleoedd Busnes***
**2 – *UG Swyddogaethau Busnes***
**3 – *U2 Dadansoddiad Busnes a Strategaeth Fusnes***
**4 – *U2 Busnes mewn Byd sy'n Newid***











Bydd y pedwar canllaw hyn yn atgyfnerthu eich dealltwriaeth drwy gydol y cwrs. Maen nhw'n cynnwys crynodebau clir a defnyddiol o'r testunau gyda chwestiynau enghreifftiol ac atebion a fydd yn eich helpu i wella eich sgiliau arholiad. Mae'r canllawiau hyn yn:

- Canolbwyntio ar y cynnwys allweddol rydych angen ei wybod gyda chrynodeb cryno o'r pynciau a nodir yn y manylebau UG a Safon Uwch
- Eich galluogi i fesur eich dealltwriaeth drwy gyfrwng 'Cyngor i'r arholiad' a chwestiynau 'Prawf gwybodaeth', gydag atebion ar ddiwedd y llyfr
- Eich helpu i wella eich sgiliau arholiad gydag atebion enghreifftiol i gwestiynau enghreifftiol
- Datblygu eich sgiliau dysgu annibynnol gyda chynnwys y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer astudio a gwaith ymchwil pellach.

ISBN: 978-1-913245-14-6 (*Cyfleoedd Busnes*); 978-1-913245-15-3 (*Swyddogaethau Busnes*); 978-1-913245-17-7 (*U2 Dadansoddiad Busnes a Strategaeth Fusnes*); 978-1-913245-16-0 (*U2 Busnes mewn Byd sy'n Newid*)
Cyhoeddwr: Atebol

## CEMEG

***CBAC TGAU Cemeg: Llyfr Gwaith***




Bydd y llyfr gwaith hwn yn helpu i ddatblygu disgyblion hyderus a llythrennog sydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer arholiad TGAU Cemeg CBAC. Mae'n adnodd gwych er mwyn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o destunau Cemeg penodol, gan ddatblygu eu hyder a'r sgiliau arholiad fydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer TGAU Cemeg.

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys:

- Deunydd ysgogi, gan gynnwys termau a chysyniadau allweddol
- Cwestiynau byr a chwestiynau enghreifftiol hirach
- Lle gwag i'r disgyblion ysgrifennu eu hatebion.

Mae modd defnyddio'r llyfr gwaith hwn yn ychwanegol i'r adnoddau allweddol fel y gwerslyfr a'r canllaw adolygu ac mae'n hawdd i'w addasu ar gyfer unrhyw gynllun gwaith presennol.

Mae'n darparu deunydd adnoddau hyblyg i atgyfnerthu a chymhwyso dealltwriaeth disgyblion o'r testun fel rhan o'r gwaith dosbarth neu fel tasgau estynedig, neu ar gyfer gwaith adolygu.


Mae'n paratoi disgyblion i ymdopi â gofynion y fanyleb gan sicrhau eu bod yn ymarfer eu techneg arholiad. Mae'r cwestiynau enghreifftiol yn ffordd o ddatblygu ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig yn ogystal â'u sgiliau mathemategol a dadansoddi a gwerthuso data.

Mae'r adnodd hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer addysgu ac asesu annibynnol, gan fod yr atebion i'r holl dasgau, gweithgareddau a'r cwestiynau enghreifftiol ar gael ar wefan Hodder Education.

ISBN: 978-1-5104-7869-5
Cyhoeddwr: Hodder Education

## CYFRIFIADUREG

***UG/Safon Uwch Cyfrifiadureg ar gyfer CBAC: Llyfr y Myfyriwr***




Mae'r gyfrol hon wedi'i chynllunio i ymateb yn llawn i fanylion manyleb Cyfrifiadureg CBAC. Bydd y gyfrol o help i chi feistroli prif egwyddorion a chysyniadau cyfrifiadureg. Mae'r cynnwys yn rhoi sylw ar feithrin eich sgiliau meddwl yn y maes a fydd yn ei dro yn eich helpu i feithrin eich sgiliau i ddatrys problemau. Bydd hefyd o help i chi ddeall cysyniadau mathemategol a dyluniad systemau.

- Adran arbennig dan y pennawd Cyfrifiadura – y cyd-destun, a fydd yn cynnig rhai ffeithiau diddorol i chi am hanes datblygiad cyfrifiadureg a sut mae'r cysyniadau hynny'n berthnasol i'r byd ehangach
- Trafod sefyllfaoedd cyfarwydd fydd yn eich helpu i weld sut mae cyfrifiadureg yn berthnasol i fywyd pob dydd
- Canllaw defnyddiol am wahanol fathau o feddalwedd a chod, yn ogystal â chynnig help llaw ar sut y gallwch osgoi rhai o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin. Bydd y cyfan yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr arholiad a chael canlyniadau llwyddiannus
- Unedau 1, 2, 3 a 4 i gyd wedi'u cynnwys o fewn un gyfrol.

ISBN: 978-1-913245-48-1
Cyhoeddwr: Atebol

## CYMDEITHASEG

***Cymdeithaseg TGAU – Canllaw Adolygu***




Mae'r llyfr hwn yn llawn gwybodaeth i'ch helpu chi i adolygu ar gyfer TGAU Cymdeithaseg. Mae wedi'i rannu'n chwe adran allweddol, sef:

- Cysyniadau a phrosesau allweddol trosglwyddo diwylliant
- Teuluoedd
- Addysg
- Gwahaniaethau cymdeithasol a haenu cymdeithasol
- Trosedd a gwyredd
- Dulliau ymholi ac ymchwilio cymdeithasegol.

Mae pob testun yn yr adrannau hyn wedi'u cynnwys ar ddwy dudalen yn unig, gan roi'r manylion angenrheidiol i'ch helpu chi i fynd yn syth at wraidd y testun. Fel hyn, mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n hawdd ei darllen a'i deall, sy'n ei gwneud yn haws i chi ddwyn ffeithiau pwysig i gof yn gyflym.

Nodir yn union â pha ran o'r fanyleb mae pob testun yn gysylltiedig, a cheir cyfeiriadau yn ôl at werslyfr *CBAC Eduqas TGAU Cymdeithaseg* hefyd, er mwyn i chi allu adolygu cynnwys allweddol yn fwy manwl.


Mae adrannau penodol yn delio â phob un o'r tair sgìl, AA1 (disgrifio), AA2 (cymhwyso) ac AA3 (gwerthuso), ac yn cynnig syniadau a gweithgareddau i ddatblygu ac ehangu eich gwybodaeth ymhellach yn yr adrannau 'Datblygu ymhellach'. Rhoddir sylw hefyd i bobl allweddol yn y maes, ac at sut mae'r testunau gwahanol yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae cyngor adolygu penodol ar gael yn y canllaw, a chyfle i chi wirio eich gwybodaeth drwy roi cynnig ar gwestiynau enghreifftiol.

Ar ôl i chi ymgyfarwyddo â'r cynnwys allweddol, gallwch chi droi at arferion a thechnegau arholiad, sy'n cael sylw manwl ym mhennod olaf y llyfr. Bydd canllawiau ac awgrymiadau i'ch helpu chi i baratoi at yr arholiadau yma, yn ogystal ag atebion i gwestiynau enghreifftiol ynghyd â sylwadau gan yr arholwr.

ISBN: 978-1-911208-35-8
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

## DAEARYDDIAETH

***CBAC TGAU Daearyddiaeth: Llyfr Gwaith***




Mae’r llyfr gwaith TGAU Daearyddiaeth yn ategu cynnwys y gwerslyfr cyfatebol, ac yn rhoi cyfle i chi fireinio eich gwybodaeth a’ch sgiliau ar eich liwt eich hun drwy gyfrwng cwestiynau enghreifftiol.

Bydd y llyfr gwaith hwn yn datblygu eich sgiliau ac yn eich paratoi ar gyfer pob cwestiwn yn yr arholiad drwy gynnig:

- Esboniadau clir o'r hyn mae pob cwestiwn yn gofyn i chi ei wneud
- Gweithgareddau sy'n gofyn am atebion byr ac sy'n eich paratoi ar gyfer y math o gwestiynau fydd yn yr arholiad
- Lle gwag i chi ysgrifennu neu gynllunio eich atebion.

Bydd ateb y cwestiynau yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau a chyflawni'r amcanion asesu (AA):

AA1: Cofio ffeithiau daearyddol

AA2: Deall cysyniadau a phrosesau daearyddol

AA3: Gwerthuso tystiolaeth neu ddefnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniad


AA4: Defnyddio sgiliau i archwilio mapiau a graffiau neu i gyfrifo.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen eich gwerslyfr ac yn cyfeirio hefyd at eich canllawiau adolygu a'ch nodiadau gwersi.

Mae'r atebion ar gyfer pob cwestiwn yn y llyfr ar gael ar wefan y cyhoeddwr.

ISBN: 978-1-510484-93-1
Cyhoeddwr: Hodder Education

*CBAC UG/Safon Uwch Daearyddiaeth – Fy Nodiadau Adolygu*




Dyma ganllaw adolygu y gallwch chi ddibynnu arno i gryfhau a phrofi eich gwybodaeth ym maes Daearyddiaeth. Gyda'r gyfrol hon gallwch atgyfnerthu eich gwybodaeth ddaearyddol wrth weithio drwy'r cynnwys, sy'n rhoi ffocws clir ar y testunau canlynol:

- Tirweddau newidiol (Tirweddau arfordirol; Tirweddau rhewlifedig)
- Lleoedd newidiol
- Systemau byd-eang (Cylchredau dŵr a charbon)
- Llywodraethiant byd-eang (Prosesau a phatrymau mudo byd-eang; Llywodraethiant byd-eang o gefnforoedd y Ddaear)
- Themâu cyfoes mewn daearyddiaeth (Peryglon tectonig).

Bydd y gyfrol hon yn gymorth hanfodol i chi wrth drefnu eich gwaith adolygu yn effeithiol. Gallwch ddefnyddio'r rhestr wirio adolygu sydd ar ddechrau'r llyfr i gynllunio a rheoli eich rhaglen adolygu fesul testun. Mae'r gyfrol hefyd yn cyflwyno cynnwys allweddol y pwnc mewn ffordd glir a phenodol gan ddefnyddio'r nodweddion canlynol:


- Diffiniadau clir a chryno o dermau allweddol hanfodol pan fyddan nhw'n ymddangos yn y llyfr am y tro cyntaf a geiriau allweddol o'r fanyleb wedi'u hamlygu mewn print trwm drwy'r llyfr cyfan.
- Cwestiynau byr 'Profi eich hun' ar ddiwedd pob testun i weld faint rydych chi wedi'i ddysgu ac i adnabod meysydd i'w gwella, gyda'r atebion yng nghefn y llyfr.
- Cyngor ymarferol gan arbenigwyr i wella'ch techneg arholiad ac enghreifftiau o gamgymeriadau cyffredin i'w hosgoi, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i chi lwyddo.
- Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer pob testun er mwyn atgyfnerthu eich adolygu ac ymarfer eich sgiliau arholiad.

Gallwch weld yr atebion i'r cwestiynau enghreifftiol ar wefan Hodder Education: [www.hoddereducation.co.uk/fynodiadauadolygu](http://www.hoddereducation.co.uk/fynodiadauadolygu).

Dyma adnodd hollbwysig felly i dargedu llwyddiant yn yr arholiadau UG a Safon Uwch Daearyddiaeth.

ISBN: 978-1-5104-8216-6
Cyhoeddwr: Hodder Education

***CBAC Safon Uwch Daearyddiaeth: Themâu cyfoes mewn daearyddiaeth – Canllaw i Fyfyrwyr***




Wedi'i ysgrifennu gan yr awdur profiadol Nicky King, mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu opsiynol sy'n gysylltiedig â chynnwys Adran B Uned 4 y cwrs Safon Uwch Daearyddiaeth, sef:

- Ecosystemau
- Twf a sialens economaidd – India/China/datblygiad mewn cyd-destun Affricanaidd
- Sialensiau a dilemâu egni
- Tywydd a hinsawdd.

Rhaid i ddysgwyr ddewis dwy thema o blith yr opsiynau uchod i'w hastudio fel rhan o'r cwrs cyn mynd ati i sefyll arholiad ysgrifenedig. Er mwyn eu paratoi ar gyfer hynny, mae'r Canllaw yn cynnwys gwybodaeth allweddol sydd ei hangen i ateb cwestiynau arholiad mewn dyfnder, ynghyd ag egluro ystyr termau allweddol. Mae yna hefyd adran ar gwestiynau enghreifftiol sy'n debyg o ran arddull i'r rhai a geir yn yr arholiad, ac ymatebion enghreifftiol gan fyfyrwyr.


Mae'r Canllaw hwn yn rhan o gyfres ehangach sy'n mynd i'r afael â'r testunau hyn:

- Lleoedd newidiol
- Tirweddau newidiol: tirweddau arfordirol; Peryglon tectonig
- Tirweddau rhewlifedig; Peryglon tectonig
- Cylchredau dŵr a charbon; Gwaith maes a sgiliau ymchwiliol
- Llywodraethiant byd-eang: newid a sialensiau; Sialensiau'r 21ain Ganrif

ISBN: 978-1-5104-8214-2
Cyhoeddwr: Hodder Education

## DYLUNIO A THECHNOLEG

***CBAC TGAU Dylunio a Thechnoleg***




Bydd y gwerslyfr hwn yn cryfhau'r profiad dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'u meysydd dylunio a thechnoleg dewisol.

Mae'r llyfr wedi'i ysgrifennu gan arbenigwyr pwnc. Bydd yn meithrin gwybodaeth dysgwyr o'r egwyddorion craidd, yn helpu i ddatblygu eu sgiliau dylunio a gwneud, ac yn rhoi cyfle i baratoi i fynd i'r afael â dwy ran yr asesiad.

Bydd yn helpu dysgwyr i fynd i'r afael â'r wybodaeth a dealltwriaeth graidd a'r sgiliau a'r cysyniadau cyffredinol sy'n ymwneud â dylunio a gwneud, yn ogystal â meithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn fwy trylwyr o ran Dylunio Peirianyddol, Ffasiwn a Thecstilau a Dylunio Cynnyrch.

Bydd yn datblygu gallu mathemategol a gwyddonol dysgwyr fel nad ydyn nhw'n colli cyfleoedd i ennill marciau hawdd.


Mae'n cynnwys cwestiynau enghreifftiol er mwyn i ddysgwyr fod yn hyderus wrth iddyn nhw fynd i'r afael ag elfen ysgrifenedig yr asesiad.

Bydd yn ysbrydoli ac yn ysgogi dysgwyr wrth iddyn nhw ymgymryd â'r dasg dylunio a gwneud, gan gynnwys enghreifftiau llawn dychymyg o bortffolios dysgwyr.

ISBN: 978-1-510478-40-4
Cyhoeddwr: Hodder Education

FFISEG

*CBAC TGAU Ffiseg: Llyfr Gwaith*




Bydd y llyfr gwaith hwn yn helpu i ddatblygu disgyblion hyderus a llythrennog sydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer arholiad TGAU Ffiseg CBAC. Mae'n adnodd gwych er mwyn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o destunau Ffiseg penodol, gan ddatblygu eu hyder a'r sgiliau arholiad fydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer TGAU Ffiseg.

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys:

- Deunydd ysgogi, gan gynnwys termau a chysyniadau allweddol
- Cwestiynau byr a chwestiynau enghreifftiol hirach
- Lle gwag i'r disgyblion ysgrifennu eu hatebion.

Mae modd defnyddio'r llyfr gwaith hwn yn ychwanegol i'r adnoddau allweddol, fel y gwerslyfr a'r canllaw adolygu ac mae'n hawdd i'w addasu ar gyfer unrhyw gynllun gwaith presennol.

Mae'n darparu deunydd adnoddau hyblyg i atgyfnerthu a chymhwyso dealltwriaeth disgyblion o'r testun, fel rhan o'r gwaith dosbarth neu fel tasgau estynedig, neu ar gyfer gwaith adolygu.


Mae'n paratoi disgyblion i ymdopi â gofynion y fanyleb gan sicrhau eu bod yn ymarfer eu techneg arholiad. Mae'r cwestiynau enghreifftiol yn ffordd o ddatblygu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yn ogystal â sgiliau mathemategol, a dadansoddi a gwerthuso data.

Mae'r adnodd hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer addysgu ac asesu annibynnol, gan fod yr atebion i'r holl dasgau, gweithgareddau a'r cwestiynau enghreifftiol ar gael ar wefan Hodder Education.

ISBN: 978-1-5104-7867-1
Cyhoeddwr: Hodder Education

## FFRANGEG

***CBAC TGAU Ffrangeg: Canllaw Adolygu***




Mae'r canllaw adolygu hwn wedi cael ei ysgrifennu gan arholwyr ac athrawon profiadol i helpu dysgwyr sy'n astudio CBAC TGAU Ffrangeg drwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae'n addas ar gyfer ymgeiswyr Haen Sylfaenol a Haen Uwch.

Mae cwestiynau enghreifftiol a chynnwys diddorol sy'n berthnasol i themâu ac is-themâu CBAC. Mae'r rhain wedi eu cynllunio i baratoi myfyrwyr ar gyfer yr arholiad.

Mae'r llyfr yn cynnwys:


- Gwybodaeth fanwl, cam wrth gam, ar fformat pob arholiad, gyda chyngor, awgrymiadau a thechnegau defnyddiol i helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer pob agwedd
- Arweiniad ar sut i wneud tasgau chwarae rôl, cardiau llun a sgwrsio yn yr arholiad siarad
- Enghreifftiau o'r mathau o gyfarwyddiadau, sbardunau a chwestiynau i'w disgwyl yn yr arholiad, yn y Gymraeg a'r Ffrangeg (yn debyg i sut byddan nhw yn yr arholiad)
- Cyfieithiadau o eiriau allweddol ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer pob testun
- Amrywiaeth o dasgau darllen ac ysgrifennu, gydag adran atebion ar ddiwedd y llyfr
- Adrannau drwy'r gyfrol sy'n adolygu'r prif bwyntiau gramadegol, gan gynnwys ymarferion, yn ogystal â thermau gramadeg a chrynodeb gramadeg sy'n cynnwys tablau berfau.


Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

ISBN: 978-1-785834-66-0
Cyhoeddwr: Crown House Publishing

## GWYDDONIAETH

***CBAC TGAU Gwyddoniaeth: Llyfr Labordy ar gyfer Gwaith Ymarferol Penodol***
***CBAC TGAU Gwyddoniaeth: Llyfr Labordy i Athrawon ar gyfer Gwaith Ymarferol Penodol***






Mae’r llyfr Labordy yn ymdrin yn llawn â’r gwaith ymarferol penodol ar gyfer y gwyddorau unigol a’r cymhwyster dwyradd. Bydd yn eich annog i gymhwyso eich gwybodaeth yn well ac yn eich helpu i feithrin sgiliau wrth wneud gwaith gwyddonol.

- Bydd yn eich tywys drwy'r gwaith ymarferol penodol a’r broses o ddadansoddi’r canlyniadau, ac yn eich helpu i lunio casgliad rhesymegol drwy gyfrwng cwestiynau strwythuredig.
- Bydd yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr arholiad drwy gyfrwng cwestiynau enghreifftiol, arweiniad ar sut mae’r gwaith ymarferol yn cael ei asesu, rhestr o hafaliadau defnyddiol, a rhestr wirio er mwyn cofnodi eich cynnydd.
- Bydd yn ymdrin â phob un o’r tasgau ymarferol gofynnol, gan nodi’r dulliau perthnasol yn ogystal â nodiadau diogelwch ac arweiniad ar y cyfarpar angenrheidiol.

Mae’r llyfr i Athrawon yn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i addysgu’r gwaith ymarferol penodol, gan gynnwys nodiadau i dechnegwyr, canlyniadau enghreifftiol, cyngor ar gamgymeriadau cyffredin gan ddisgyblion, ac arbrofion ychwanegol i ehangu gwybodaeth.

- Bydd yn ymdrin yn llawn â’r gwaith ymarferol penodol ac yn darparu nodiadau i dechnegwyr ar gyfer pob un o’r tasgau ymarferol, yn ogystal â rhestri cyfarpar a nodiadau diogelwch.
- Bydd yn cynnig arweiniad ar y ffactorau sy’n gallu achosi canlyniadau


annisgwyl ym mhob arbrawf, a chyngor ar sut i leihau effeithiau'r ffactorau hyn.

- Bydd yn tynnu sylw at gamgymeriadau cyffredin gan ddisgyblion, ac yn esbonio sut i fynd i'r afael â'r camgymeriadau hyn.
- Bydd yn cynnig dull cyfannol o addysgu'r gwaith ymarferol penodol, ac yn awgrymu ffyrdd gwahanol o gynnal pob arbrawf, yn ogystal ag arbrofion cysylltiedig ac estynedig.
- Mae'r Llyfr Labordy i Athrawon yn cynnwys yr atebion i'r holl gwestiynau yn y Llyfr Labordy i Ddisgyblion, yn ogystal â meini prawf marcio, gan dynnu sylw penodol at gwestiynau estyn, cwestiynau Mathemateg a chwestiynau AYE.

ISBN: 978-1-398310-12-4 (*Llyfr Labordy*); 978-1-398310-15-5 (*Llyfr Labordy i Athrawon*)
Cyhoeddwr: Hodder Education

## GWYDDOR BWYD A MAETH

***CBAC Lefel 3 Tystysgrif mewn Gwyddor Bwyd a Maeth***




Dyma lyfr gan athrawon ac arholwyr profiadol, fydd yn eich cefnogi drwy Uned 1 y Dystysgrif (*Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol*), ac yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr asesiadau.

Mae wedi'i rannu'n chwe adran allweddol, sef:

- Diogelwch bwyd
- Maeth
- Anghenion maethol pobl
- Deietau

- Cynllunio bwydlenni
- Technegau paratoi a choginio.

Mae’r gyfrol yn rhoi sylw i’r agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar y cwrs. Mae cysyniadau allweddol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd hawdd ei deall, llawn diagramau a delweddau sy’n dod â maes Gwyddor Bwyd a Maeth yn fyw. Yn ogystal, mae amrywiaeth o ryseitiau’n cael eu cynnwys i’ch ysbrydoli, ac i’ch helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol craidd, fydd yn meithrin eich hyder wrth gynllunio a choginio seigiau cymhleth.

Drwyddi draw, mae cyfeiriadau clir at y Deilliannau Dysgu a’r Meini Prawf Asesu sy’n rhan o fanyleb CBAC. Felly, bydd y llyfr yn hawdd iawn ei ddilyn ochr yn ochr â’r fanyleb, gan wybod yn union â pha ran o’r fanyleb mae pob testun yn gysylltiedig. Bydd cyfle i chi adolygu pob pennod hefyd, gyda’r adrannau Profi eich gwybodaeth sy’n rhoi enghreifftiau o wahanol fathau o gwestiynau i chi eu hymarfer.


Ar ôl i chi ymgyfarwyddo â’r cynnwys allweddol, gallwch chi droi at yr adran asesu fanwl, sy’n cynnig arweiniad ar beth i’w ddisgwyl a sut i baratoi ar gyfer asesiadau mewnol ac allanol Uned 1.


ISBN: 978-1-9128-2061-0
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing


## HANES

Pedwar canllaw Hanes Safon Uwch:

***1 – UG Uned 2: Weimar a’i Sialensiau, tua 1918–1933***
***2 – Safon Uwch Uned 3: Canrif yr Americanwyr, tua 1890–1990***
***3 – Safon Uwch Uned 4: Yr Almaen Natsïaidd, tua 1933–1945***
***4 – Safon Uwch Uned 5: Dehongliadau Hanesyddol (asesiad di-arholiad)***






Mewn cyfnod o newid mawr, mae astudio a deall agweddau gwahanol ar ein hanes yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen. Mae manyleb TAG Hanes CBAC yn rhoi cyfle i ddysgwyr astudio hanes drwy amrywiol Astudiaethau Manwl, a phob un yn rhoi ystyriaeth i bersbectif Cymreig yn rhan o gyd-destun hanesyddol ehangach.
Ceir cyfle i astudio o leiaf un wlad y tu allan i Ynysoedd Prydain, yng nghyd-destun Ewrop neu'r byd ehangach. Mae'r Astudiaethau Manwl hefyd yn canolbwyntio'n arbennig ar yr effaith gafodd digwyddiadau hanesyddol ar Gymru. Yn ystod y cwrs mae cyfle hefyd i werthuso ffynonellau wrth greu naratif hanesyddol, a chanolbwyntio ar ffurfio dehongliadau hanesyddol gwahanol.

Bydd hyn oll yn datblygu diddordeb a brwdfrydedd myfyrwyr am werth cynhenid ac arwyddocâd y pwnc, ac yn eu hannog i wneud cysylltiadau a thynnu cymariaethau o fewn ac ar draws cyfnodau ac agweddau gwahanol ar y gorffennol. Nawr, dyma gyfres o ganllawiau adolygu cynhwysfawr, wedi'u creu'n benodol i gefnogi myfyrwyr wrth gyflawni hyn.

Bydd y canllawiau hyn yn annog myfyrwyr i atgyfnerthu ac adolygu'r wybodaeth hanesyddol a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer cymhwyster Safon Uwch Hanes CBAC. Maent yn dilyn manyleb CBAC ac yn cynnwys crynodebau clir o bob testun a chwestiynau ac atebion enghreifftiol. Dyma gyfle i gryfhau'ch dealltwriaeth drwy gydol y cwrs.

Wedi'u hysgrifennu gan haneswyr profiadol, mae'r canllawiau hyn i fyfyrwyr yn trafod materion a chynnwys allweddol y fanyleb yn gryno, gan rannu'r Unedau yn adrannau hawdd eu trin. Bydd hyn yn eich galluogi i fesur eich dealltwriaeth gyda chyngor a chwestiynau gwirio gwybodaeth, a datblygu sgiliau dadansoddi a gwerthuso sy'n angenrheidiol i lwyddo ar y cwrs Hanes. Byddwch hefyd yn cael eich annog i nodi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i gwblhau eich asesiad di-arholiad, gan eich galluogi i fesur eich dealltwriaeth gyda chyngor a thasgau dan arweiniad. Trwy hyn, byddwch yn datblygu'ch sgiliau dysgu annibynnol gyda chynnwys y gallwch chi ei ddefnyddio i astudio ac ymchwilio ymhellach.


Gallwch wella eich techneg arholiad wrth ddarllen sylwadau ar atebion enghreifftiol a'r marciau sydd ar gael ymhob cwestiwn. Defnyddiwch y llyfrau hyn i ddatblygu eich sgiliau dysgu annibynnol gyda chynnwys y gallwch chi ei ddefnyddio i astudio ac ymchwilio ymhellach.


ISBN: 978-1-510482-12-8 (Uned 2); 978-1-510482-06-7 (Uned 3); 978-1-510482-01-2 (Uned 4); 978-1-510482-07-4 (Uned 5)
Cyhoeddwr: Hodder Education

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### *CBAC Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TGAU*




Dyma gyfres newydd o lyfrau sydd wedi cael eu hysgrifennu'n arbennig ar gyfer cwrs *CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant*. Mae'r adnoddau yn cynnwys gwerslyfr i'r dysgwr, sy'n rhoi sylw i Uned 3 ac Uned 4 y fanyleb, yn ogystal â llyfr athrawon i'w gefnogi.

Mae'r gwerslyfr wedi'i rannu'n benodau llai sy'n seiliedig ar adrannau'r fanyleb. Drwy ei rannu fel hyn, mae'n ei gwneud yn hawdd i ddysgwyr ei ddarllen a'i ddeall, yn ogystal â gweld y cysylltiad â'r fanyleb. Mae'n rhoi sylw i'r wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen ar ddysgwyr wrth iddynt ddilyn y cwrs, gan dynnu eu sylw at eiriau allweddol y bydd angen iddynt eu deall a'u cofio.


Mae'r llyfr athrawon yn cynnwys gweithgareddau sy'n addas i ddysgwyr o bob oed, a'u bwriad yw atgyfnerthu'r hyn sy'n cael ei addysgu yn y gwerslyfr.

Mae gwerslyfr a llyfr athrawon sy'n rhoi sylw i Unedau 1 a 2 y fanyleb eisoes ar gael.

ISBN: 978-1-86085-702-7 (y gwerslyfr); 978-1-86085-703-4 (y llyfr athrawon)
Cyhoeddwr: CBAC

## MATHEMATEG

### *CBAC Mathemateg ar gyfer U2 – Profion Ymarfer Pur a Chymhwysol*



Dyma’r gyfrol olaf yn y gyfres, gan yr awdur profiadol Stephen Doyle, sydd wedi'i llunio i gyd-fynd â'r gwerslyfrau Mathemateg ar gyfer U2 – Pur a Chymhwysol.

Meithrin hyder y dysgwyr yn y gwahanol destunau dan sylw yw nod y gyfrol hon, gan ddefnyddio cwestiynau wedi’u graddio, sy’n debyg i’r mathau o gwestiynau a geir yn yr arholiad ei hun.

Mae ffeithiau a fformiwlâu hanfodol wedi’u nodi ar ddechrau pob testun, ynghyd ag atebion ac esboniadau i’r holl gwestiynau yng nghefn y gyfrol. Mae'n cynnig cyngor a chefnogaeth ar gyfer y cwestiynau anstrwythuredig newydd yn yr arholiad, ac mae’n cynnwys papurau enghreifftiol.

Cynnwys:

Cwestiynau

U2 Uned 3 Mathemateg Bur B

1 Prawf

2 Algebra a ffwythiannau

3 Dilyniannau a chyfresi

4 Trigonometreg

5 Differu

6 Geometreg gyfesurynnol ym mhlân ($x$, $y$)

7 Integru

8 Dulliau rhifiadol

U2 Uned 4 Mathemateg Gymhwysol B

Adran A Ystadegaeth

1 Tebygolrwydd

2 Dosraniadau ystadegol

3 Profi rhagdybiaethau ystadegol

Adran B Mecaneg

4 Cinemateg ar gyfer mudiant â chyflymiad amrywiol

5 Cinemateg ar gyfer mudiant gan ddefnyddio fectorau

6 Mathau o rymoedd, cydrannau grymoedd a grymoedd mewn ecwilibriwm

7 Grymoedd a deddfau Newton

8 Mudiant taflegryn

9 Hafaliadau differol

Papurau Enghreifftiol

Uned 3 Mathemateg Bur B


Uned 4 Mathemateg Gymhwysol B


Atebion

ISBN: 978-1-911208-85-3
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

***CBAC UG Mathemateg – Fy Nodiadau Adolygu***
***CBAC U2 Mathemateg – Fy Nodiadau Adolygu***




Dyma gyfle i chi dargedu llwyddiant wrth ddilyn cwrs CBAC UG ac U2 Mathemateg gyda'r ddau lyfr Fy Nodiadau Adolygu hyn, sy'n creu fformiwla ar gyfer adolygu effeithiol a strwythuredig sydd wedi'i brofi dro ar ôl tro. Yn y ddau lyfr hyn, mae cynnwys allweddol yn cael ei gyfuno ag enghreifftiau sy'n dangos y gwaith cyfrifo yn llawn, cwestiynau diagnostig a chwestiynau enghreifftiol i greu canllaw adolygu y gallwch chi ddibynnu arno i adolygu, cryfhau a phrofi eich gwybodaeth.

Bydd cyfle i chi ddatblygu'r sgiliau allweddol sydd eu hangen arnoch chi i lwyddo, gyda chwestiynau yn seiliedig ar sgiliau sy'n ymwneud â datrys problemau, profi, modelu a defnyddio TGCh (taenlenni, meddalwedd graffiau a chyfrifianellau graffiau).

Gallwch chi dargedu eich gwaith adolygu yn strategol gyda chwestiynau diagnostig, er mwyn gweld pa feysydd mae angen i chi ganolbwyntio arnyn nhw.

Gallwch chi baratoi at yr asesiadau gyda chwestiynau enghreifftiol a chyngor ar wendidau cyffredin mewn arholiadau.

Bydd cyfle i chi ddatblygu eich dealltwriaeth gydag enghreifftiau sy'n dangos y gwaith cyfrifo yn llawn, yn ogystal ag atebion i gyd-fynd â'r enghreifftiau hyn, sy'n cynnig esboniadau manwl ac addysgiadol.

Gallwch chi atgyfnerthu eich gwaith adolygu gyda chrynodebau am bob testun, sy'n rhoi sylw i beth dylech chi ganolbwyntio arno yn y cyfnod cyn yr arholiadau. Mae sylw arbennig yn cael ei roi i'r gwendidau cyffredin, er enghraifft sut i ddangos gwaith cyfrifo cywir. Mae'r atebion i gyd ar gael yng nghefn y llyfr.

ISBN: 978-1-510486-28-7 (*UG*); 978-1-510486-33-1 (U2*)*
Cyhoeddwr: Hodder Education

## PEIRIANNEG

***CBAC Dyfarniad Galwedigaethol: Peirianneg Lefel ½***




Wedi'i ysgrifennu gan athro profiadol, mae'r llyfr hygyrch ac ymarferol hwn yn adnodd perffaith i'ch cefnogi drwy gwrs CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Peirianneg, ac i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr asesiad.

- Bydd y llyfr yn eich cyflwyno i lawer o egwyddorion a sgiliau peirianneg sylfaenol, ac yn eich caniatáu i feithrin dealltwriaeth dda o'r maes pwnc.


- Bydd yn dangos i chi sut i gyfathrebu'n effeithiol fel Peiriannydd drwy gyfrwng technegau lluniadu 3D a lluniadau technegol, yn ogystal â sut i ddefnyddio ac adnabod llawer o declynnau, peiriannau a darnau o offer sy'n gyffredin ym maes peirianneg.

- Mae'n cynnwys tasgau bach a mân brojectau fydd yn eich galluogi i ddefnyddio eich gwybodaeth a cheisio cymhwyso'r ddamcaniaeth.


ISBN: 978-1-912820-60-3
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing

## SBAENEG

***CBAC TGAU Sbaeneg: Canllaw Adolygu***




Mae'r canllaw adolygu hwn wedi cael ei ysgrifennu gan arholwyr ac athrawon profiadol i helpu dysgwyr sy'n astudio CBAC TGAU Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae'n addas ar gyfer ymgeiswyr Haen Sylfaenol a Haen Uwch.

Mae cwestiynau enghreifftiol a chynnwys diddorol sy'n berthnasol i themâu ac is-themâu CBAC. Mae'r rhain wedi eu cynllunio i baratoi myfyrwyr ar gyfer yr arholiad.


Mae'r llyfr yn cynnwys:

- Gwybodaeth fanwl, cam wrth gam, ar fformat pob arholiad, gyda chyngor, awgrymiadau a thechnegau defnyddiol i helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer pob agwedd
- Arweiniad ar sut i wneud tasgau chwarae rôl, cardiau llun a sgwrsio yn yr arholiad siarad
- Enghreifftiau o'r mathau o gyfarwyddiadau, sbardunau a chwestiynau i'w disgwyl yn yr arholiad, yn y Gymraeg a'r Sbaeneg (yn debyg i sut byddan nhw yn yr arholiad)
- Cyfieithiadau o eiriau allweddol ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer pob testun
- Amrywiaeth o dasgau darllen ac ysgrifennu, gydag adran atebion ar ddiwedd y llyfr
- Adrannau drwy'r gyfrol sy'n adolygu'r prif bwyntiau gramadegol, gan gynnwys ymarferion, yn ogystal â thermau gramadeg a chrynodeb gramadeg sy'n cynnwys tablau berfau.

ISBN: 978-1-785834-72-1
Cyhoeddwr: Crown House Publishing

## TROSEDDEG

***CBAC Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Cymhwysol Troseddeg – Canllaw Astudio ac Adolygu***




Ydych chi ar drywydd y cliwiau gorau wrth astudio pwnc Troseddeg? Hoffech chi allu datrys dirgelwch y sgiliau adolygu ac ymarfer gorau? Yna byddai'n drosedd i chi beidio â chael gafael ar y gyfrol hon.

Y Canllaw Astudio ac Adolygu hwn yw'r cydymaith perffaith i'r gwerslyfr Troseddeg Lefel 3. Mae'n crynhoi gwybodaeth allweddol mewn ffordd hygyrch a gweledol, ac yn cynnig arweiniad amhrisiadwy i sicrhau eich bod yn barod am yr asesiadau dan reolaeth.

Wedi'i ysgrifennu gan athrawon ac arholwyr Troseddeg profiadol, mae ynddo gyfoeth o gwestiynau ac atebion enghreifftiol er mwyn eich helpu i ymarfer eich techneg yn yr arholiad.

Mae'n rhannu damcaniaethau troseddeg yn unedau hawdd eu deall, yn eich helpu i'w cymhwyso a'u gwerthuso, ac yn cynnwys gweithgareddau diddorol sy'n atgyfnerthu'r broses ddysgu, er mwyn i chi roi eich gwybodaeth ar waith.

Sicrhewch bob cyfiawnder i chi eich hun wrth astudio'r pwnc, a pheidiwch â chadw'r canllaw hwn dan glo!


ISBN: 978-1-912820-30-6
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing


cbac wjec

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

## Y GYFRAITH

***CBAC Safon Uwch Y Gyfraith, Llyfr 1: Canllaw Adolygu***
***CBAC Safon Uwch Y Gyfraith, Llyfr 2: Canllaw Adolygu***




A ninnau'n byw mewn cyfnod o newid gwleidyddol a chyfreithiol, mae maes Y Gyfraith yn fwy diddorol a pherthnasol nag erioed i'w astudio. Wrth i fanyleb CBAC Y Gyfraith ar gyfer Safon Uwch adlewyrchu natur fywiog a chyfoes y pwnc, dyma ddau ganllaw adolygu cynhwysfawr sy'n cynnig cefnogaeth o ansawdd uchel ar gyfer y fanyleb honno, ac sydd wedi eu dylunio i gyd-fynd â'r gwerslyfrau cyfatebol.

Daw'r cyfrolau hyn â maes Y Gyfraith yn fyw drwy gyfeirio at y datblygiadau diweddaraf yn y maes a thrafod achosion ac enghreifftiau perthnasol yn gyson. Ynddynt hefyd mae esboniadau clir a chryno o wahanol feysydd Y Gyfraith, ac mae'n hawdd dod o hyd i bopeth yn ôl adrannau'r fanyleb.

Bydd myfyrwyr yn cael eu harwain drwy'r cyfrolau gyda chymorth amrywiaeth o nodweddion a gweithgareddau sy'n eu hannog i feddwl yn feirniadol. Bydd y canllawiau'n helpu i gyfoethogi eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u gallu i ddadansoddi. Atgyfnerthir gwybodaeth a dealltwriaeth drwy gyfrwng gweithgareddau a chwestiynau cyflym.

Yn ogystal â hyn, mae'r cyfrolau'n cynnig arweiniad clir ar dechneg adolygu ar gyfer yr arholiadau. Gan eu bod wedi eu hysgrifennu gan athrawon ac arholwyr profiadol, mae profiad y myfyriwr yn ganolog i'r cyfrolau, sydd yn sicr o ddenu eu diddordeb a mireinio eu sgiliau.

Mae canllaw Llyfr 1 yn ategu gwerslyfr Llyfr 1, gan drafod holl gynnwys y cwrs UG, a rhywfaint o gynnwys y cwrs U2. Mae canllaw Llyfr 2 yn ategu gwerslyfr Llyfr 2, gan drafod cynnwys y cwrs U2 yn ychwanegol at y cynnwys sydd i'w ganfod yn y canllaw cyntaf.

ISBN: 978-1-912820-57-3 (*Llyfr 1*); 978-1-912820-58-0 (*Llyfr 2*)
Cyhoeddwr: Illuminate Publishing